Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Llawdriniaeth Cywiro'r Trwyn**

**Cyngor i Achosion Dydd wrth iddynt Adael yr Ysbyty**

---

**Cyngor i Achosion Dydd wrth iddynt Adael yr Ysbyty wedi Llawdriniaeth Cywiro'r Trwyn**

Gan eich bod wedi cael anesthetig cyffredinol heddiw dylech fwyta bwyd ysgafn ac osgoi diodydd pigog am y diwrnod fel nad ewch yn sâl. Dylech fynd adref yn syth o'r ysbyty ac ymlacio heddiw ac yfory. Byddwch yn derbyn galwad cwrteisi gan yr uned yfory.

**Gweithgareddau dyddiol:**
Argymhellir eich bod yn cymryd pythefnos oddi ar eich gwaith ar ôl y llawdriniaeth. Peidiwch ag ymarfer na defnyddio peiriannau trwm yn ystod y cyfnod hwn. Mae modd rhoi nodyn salwch i chi os gofynnwch am un cyn gadael yr ysbyty. Fe'ch cynghorir hefyd i gadw draw o leoedd myglyd a lleoedd prysur fel nad ydych yn dal heintiau.
Peidiwch â chael diodydd, prydau, bath na chawod boeth sy'n stemio, a hynny am wythnos, fel nad ydych yn cael gwaedlyn. Fe'ch cynghorir hefyd i beidio â chwythu'ch trwyn, ac i disian gyda'ch ceg yn agored yn ystod y cyfnod hwn, am yr un rheswm. Ceisiwch dorri'n ôl ar ysmygu neu roi'r gorau iddi gan y bydd hyn yn cael effaith ar allu'r corff i iacháu ac yn cyfrannu at symptomau parhaus yn y trwyn. Gall staff roi manylion grŵp cefnogi i chi er mwyn eich helpu i roi'r gorau iddi.

**Poen:**
Mae'n arferol cael poen am hyd at 48 awr wedi'r llawdriniaeth. Byddwch yn cael meddyginiaeth sy'n lleddfu'r boen i fynd adref gyda chi a rhaid ei chymryd yn rheolaidd. Bydd staff nyrsio'n trafod y feddyginiaeth gyda chi cyn i chi adael yr ysbyty. Os bydd y boen yn eich trwyn yn gwaethygu neu flaen y trwyn yn mynd yn boenus neu'n chwyddo, cysylltwch â'r ysbyty am gyngor.

**Clwyf:**
Efallai y bydd llif gwaedlyd a dyfriog yn dod o'ch trwyn. At hyn, bydd eich trwyn yn teimlo fel pe bai wedi cau oherwydd y chwyddo yn sgil y llawdriniaeth. Mae hyn yn rhan arferol o'r broses iacháu a gallai barhau am bedair wythnos. Os bydd gwaedu, gwasgwch flaen cnawdol eich trwyn, pwyso ymlaen a rhoi iâ ar eich trwyn. Os na

fydd y gwaedu'n peidio ar ôl 30 munud, ewch i'ch adran damweiniau ac achosion brys agosaf.
Gallai crawennau a chrachod ddatblygu y tu mewn i'ch trwyn. Peidiwch â phigo'r rhain gan y gallai hyn beri i'ch trwyn waedu a chael effaith ar y broses iacháu. Efallai y cewch eich cynghori i olchi'ch trwyn gyda dŵr a halen a chewch gyngor gan staff ar hyn a rhagor o wybodaeth i fynd adref gyda chi. Efallai y bydd gennych bwythau y tu mewn i'ch trwyn. Mae'r rhain yn toddi ac nid oes angen eu tynnu. Os oes gennych becyn cotwm nad yw'n toddi y tu mewn i'ch trwyn bydd staff yn eich cynghori ar ffyrdd i'w annog i doddi.

**Camau dilynol:**
Fel arfer, bydd angen i chi ddod i'r clinig 6-8 wythnos wedi'r llawdriniaeth oni bai fod eich llawfeddyg wedi dweud fel arall wrthych. Caiff yr apwyntiad hwn ei bostio atoch.

**GWYBODAETH AM ADAEL YR ADRAN DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYS**

**Cyn 18:00:** Cysylltwch â'r Uned Llawdriniaeth Ddydd ar 01633 234199 / 01633 234196

**Ar ôl 18:00/dros nos**: Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu'r Uned Asesu Lawdriniaethol C0 ar 01633 493926

**Pe ceid argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English"**